

DATGANIAD NEWYDDION

I'W RYDDHAU AR UNWAITH
18 Rhagfyr 2018

Gŵyl y gwledda...Cinio Nadolig yn dod â hwyl yr Ŵyl i drigolion Caergybi

Daeth hwyl yr Ŵyl yn gynnar i Gaergybi ddoe, wrth i drigolion hŷn a phlant meithrin eistedd i lawr gyda'i gilydd i fwynhau cinio Nadolig, diolch i rodd gan Pŵer Niwclear Horizon.

Mae'r Lunch Club Fundraising Group wedi bod yn darparu cinio Nadolig am ddim i bensiynwyr lleol dros y 14 mlynedd diwethaf yng Nghanolfan Gymunedol Gwelfor, ond oherwydd y cynnydd mewn prosiectau cymunedol eraill, roedd y tîm o wirfoddolwyr yn disgwyl rhagor o westeion eleni o Glwb Cinio Gwelfor a grŵp Mens Sheds Morlo.

Roedd y gwirfoddolwyr wedi gwneud cais i Gynllun Buddsoddi Cymunedol Horizon am gymorth ariannol i allu cynnal y cinio Nadolig eleni. Roedd y cais wedi llwyddo ac roedd dros 80 o bobl hŷn wedi mwynhau twrci a chanu carolau.

Eleni daeth plant o Feithrinfa Morlo at y grŵp, gan eu bod wedi bod yn ymweld â chartrefi gofal lleol i wneud gwaith rhwng y cenedlaethau gyda'r preswylwyr. Roedden nhw hefyd wedi cael mwynhau'r cinio Nadolig, a gafodd ei weini gan wirfoddolwyr lleol, gan gynnwys y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones – Pencampwr Pobl Hŷn Cyngor Sir Ynys Môn – a staff o Horizon.

Dywedodd Veronica Huband, Ysgrifennydd y Lunch Club Fundraising Group: "Mae nifer o'r bobl hŷn a ddaw i'n grŵp yn wynebu nifer o anafteision, fel salwch neu anabledd, colli cymar, unigrwydd ac arwahanrwydd cymdeithasol. Mae'r clwb cinio wedi bod yn ffordd wych o ddod â'r gymuned at ei gilydd dros ginio poeth mewn awyrgylch croesawgar, ac ar yr adeg hon o'r flwyddyn, dathlu'r Nadolig gyda theulu a ffrindiau.

"Hoffem ddiolch i dîm Horizon am eu rhodd caredig ac am ein helpu ni ar y diwrnod. Fydden ni ddim wedi gallu cynnal y cinio Nadolig heb y cymorth ariannol, felly rydyn ni'n ddiolchgar dros ben."

Dywedodd Gwen Parry-Jones, Cyfarwyddwr Gweithredol, Datblygiadau Gweithredol yn Pŵer

Niwclear Horizon: “Mae'r Nadolig yn amser i roi ac felly rydyn ni wrth ein bodd ein bod wedi gallu dod â rhywfaint o hwyl yr Ŵyl i Glwb Cinio Gwelfor. Mae'r gwirfoddolwyr yn gweithio'n ddiflino i uno'r gymuned a darparu cefnogaeth sydd wir ei hangen i rai o'r rheini sydd fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas, felly roedden ni'n falch iawn o allu eu helpu i ddathlu'r Nadolig.”

I gael rhagor o wybodaeth am y Cynllun Buddsoddi Cymunedol a sut i wneud cais, ewch i, www.horizonnuclearpower.com/cefnogir-gymuned.

Dysgwch ragor am Pŵer Niwclear Horizon a'r cynigion ar gyfer Wylfa Newydd drwy fynd i www.horizonnuclearpower.com/hafan, ffonio 0800 954 9516 neu anfon e-bost i ymholiadauwylfa@horizonnuclearpower.com. I gael yr wybodaeth ddiweddaraf, dilynwch [@horizonnuclear](https://twitter.com/horizonnuclear) ar Twitter ac Instagram.

- DIWEDD -

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Richard Foxhall – 07807 769265 neu richard.foxhall@horizonnuclearpower.com

Nodiadau i olygyddion:

- Ffurfiwyd Pŵer Niwclear Horizon yn 2009 i ddatblygu gorsafodd pŵer niwclear newydd yn y DU. Prynwyd Horizon gan Hitachi, Ltd ym mis Tachwedd 2012. Mae'r cwmni'n datblygu cynlluniau i adeiladu gorsafodd i gynhyrchu o leiaf 5,800MW o bŵer niwclear newydd yn Wylfa ar Ynys Môn ac yn Oldbury-on-Severn yn Ne Swydd Gaerloyw. Bydd safleoedd y gorsafodd pŵer hyn yn cyflogi hyd at 850 o bobl yr un pan fyddant yn weithredol, gyda gweithlu adeiladu o hyd at 9,000.
- Bydd datblygiad Horizon ar Ynys Môn yn golygu buddsoddiad gwerth biliynau o bunnoedd yng ngogledd Cymru, gan greu cyfleoedd cyflogaeth tymor hir o ansawdd da ac arwain at fanteision economaidd a chymdeithasol parhaol i'r rhanbarth.